OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A5, yr A44, yr A55, yr A458, yr A470, yr A479, yr A483, yr A487, yr A489 a'r A494 (Lleoliadau Amrywiol yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Ebrill 2022* |
| *Yn dod i rym* | *25 Ebrill 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffyrdd yr A5, yr A44, yr A55, yr A458, yr A470, yr A479, yr A483, yr A487, yr A489 a'r A494, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd y tebygolrwydd y byddai perygl i'r cyhoedd yn codi o ganlyniad i gludo llwythi anwahanadwy annormal.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984([1]), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A5, yr A44, yr A55, yr A458, yr A470, yr A479, yr A483, yr A487, yr A489 a'r A494 (Lleoliadau Amrywiol yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Ebrill 2022.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2022 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A5, A44, A55, A458, A470, A479, A483, A487, A489 and A494 Trunk Roads (Various Locations in North and Mid Wales) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2022

| | |
|---|---|
| *Made* | *20 April 2022* |
| *Coming into force* | *25 April 2022* |

The Welsh Ministers, being the traffic authority for the A5, A44, A55, A458, A470, A479, A483, A487, A489 and A494 trunk roads, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk roads should be prohibited due to the likelihood of danger to the public arising from the transportation of abnormal indivisible loads.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984([1]), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A5, A44, A55, A458, A470, A479, A483, A487, A489 and A494 Trunk Roads (Various Locations in North and Mid Wales) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2022 and this Order comes into force on 25 April 2022.

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw'r darnau o brif gerbytffyrdd, cylchfannau a chilfannau Cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi, Cefnffordd yr A44 y Drenewydd i Aberystwyth, Cefnffordd yr A55 Caer i Fangor a Chefnffordd Llundain i Gaergybi, Cefnffordd yr A458 yr Amwythig i Ddolgellau, Cefnffordd yr A470 Caerdydd i Lansanffraid Glan Conwy, Cefnffordd yr A479 Parc Glan-wysg (Crucywel) i Lys-wen, Cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion, Cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor, Cefnffordd yr A489 y Drenewydd i Aberystwyth a Chefnffordd Caersŵs i Fachynlleth a Chefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw yn siroedd Ynys Môn, Gwynedd, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam, Conwy, Powys, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin;

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith o gludo'r llwythi anwahanadwy annormal sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y cludo" ("*transportation period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 25 Ebrill 2022 ac sy'n dod i ben pan fydd y gwaith o symud y llwythi anwahanadwy annormal wedi ei gwblhau.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cludo, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

**Interpretation**

**2.** In this Order—

"exempted vehicle" *("cerbyd esempt")* means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the transportation of the abnormal indivisible loads giving rise to this Order;

"the trunk roads" *("y cefnffyrdd")* means the lengths of the main carriageways, roundabouts and laybys of the A5 London to Holyhead Trunk Road, A44 Newtown to Aberystwyth Trunk Road, A55 Chester to Bangor Trunk Road and London to Holyhead Trunk Road, A458 Shrewsbury to Dolgellau Trunk Road, A470 Cardiff to Glan Conwy Trunk Road, A479 Glanusk Park (Crickhowell) to Llyswen Trunk Road, A483 Swansea to Manchester Trunk Road, A487 Fishguard to Bangor Trunk Road, A489 Newtown to Aberystwyth Trunk Road and Caersws to Machynlleth Trunk Road and A494 Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road in the counties of Isle of Anglesey, Gwynedd, Denbighshire, Flintshire, Wrexham, Conwy, Powys, Ceredigion and Carmarthenshire;

"transportation period" *("cyfnod y cludo")* means that period commencing at 00:01 hours on 25 April 2022 and ending when the movement of the abnormal indivisible loads has been completed.

**Prohibition**

**3.** No person may, during the transportation period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order.

**Application**

**4.** The prohibition in article 3 shall apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**5.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 20 Ebrill 2022

*Nicci Hunter*
Arweinydd Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated the 20 April 2022

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

**CEFNFFORDD YR A5**

1. Y darn o gefnffordd yr A5 sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr yn y Waun, Wrecsam hyd at ei chyffordd â chefnffordd yr A55 wrth Gyfnewidfa Llys y Gwynt, Bangor, Gwynedd gan gynnwys y prif gerbytffyrdd yn Halton, Canalside, Llangollen, Glyndyfrdwy, Llidiart y Parc, Corwen, y Maerdy, Tŷ-nant, Cerrigydrudion, Pentrefoelas, Betws y Coed, Pentre-du, Capel Curig a Bethesda.

2. Y darn o gefnffordd yr A5 sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A487 i'r de o Bont y Borth, Bangor, Gwynedd hyd at ei chyffordd â chefnffordd yr A55 yn Llanfair Pwllgwyngyll, Ynys Môn, gan gynnwys y prif gerbytffyrdd ym Mhorthaethwy, Ffordd Mona a Ffordd Caergybi.

**CEFNFFORDD YR A44**

Y darn o gefnffordd yr A44 sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A470 yn Llangurig, Powys hyd at ei chyffordd â chefnffordd yr A487 yn Aberystwyth, Ceredigion gan gynnwys y prif gerbytffyrdd yn Eisteddfa Gurig, Dyffryn Castell, Ponterwyd, Cwmbrwyno, Goginan, Capel Bangor, Llanbadarn Fawr a Ffordd Llanbadarn.

**CEFNFFORDD YR A55**

Y darn o gefnffordd yr A55 sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr, 480 o fetrau i'r dwyrain o Gyffordd 36A Brychdyn, Sir y Fflint hyd at y fan lle y mae'n dechrau wrth Gyffordd 1, Caergybi, Ynys Môn.

**CEFNFFORDD YR A458**

Y darn o gefnffordd yr A458 sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr, 750 o fetrau i'r dwyrain o Dreberfedd, Powys hyd at ei chyffordd â chefnffordd yr A470 ym Mallwyd, Gwynedd gan gynnwys y prif gerbytffyrdd

**A5 TRUNK ROAD**

1. The length of the A5 trunk road that extends from the England/Wales border at Chirk, Wrexham to the A55 trunk road at Llys-y-Gwynt Interchange, Bangor, Gwynedd including the main carriageways of Halton, Canalside, Llangollen, Glyndyfrdwy, Llidiart y Parc, Corwen, Maerdy, Ty-Nant, Cerrigydrudion, Pentrefoelas, Betws y Coed, Pentre Du, Capel Curig and Bethesda.

2. The length of the A5 trunk road that extends from its junction with the A487 south of the Menai Suspension Bridge, Bangor, Gwynedd to its junction with the A55 at Llanfair Pwllgwyngyll, Isle of Anglesey including the main carriageways of Menai Bridge, Mona Road and Holyhead Road.

**A44 TRUNK ROAD**

The length of the A44 trunk road that extends from its junction with the A470 trunk road at Llangurig, Powys to its junction with the A487 trunk road in Aberystwyth, Ceredigion including the main carriageways of Eisteddfa Gurig, Dyffryn Castell, Ponterwyd, Cwmbrwyno, Goginan, Capel Bangor, Llanbadarn Fawr and Llanbadarn Road.

**A55 TRUNK ROAD**

The length of the A55 trunk road that extends from the Wales/England border, 480 metres east of Junction 36A Broughton, Flintshire to its commencement at Junction 1, Holyhead, Isle of Anglesey.

**A458 TRUNK ROAD**

The length of the A458 trunk road that extends from the Wales/England border, 750 metres east of Middletown, Powys to its junction with the A470

yn Nhre-wern, Tal-y-bont a'r Trallwng (Salop Road, Stryd yr Eglwys, Stryd Aberriw, Broad Street, Mount Street, Raven Street, Raven Square, Cylchfan Raven), Cyfronydd, Heniarth, Llanfair Caereinion, Llanerfyl, Llangadfan a'r Foel.

**CEFNFFORDD YR A470**

Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Brynich, Powys hyd at ei chyffordd â chefnffordd yr A55 wrth Gyffordd 19, Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy, Conwy gan gynnwys y prif gerbytffyrdd yn Llys-wen, Erwyd, Llanfair-ym-Muallt (Hay Road), Pontnewydd ar Wy, Rhaeadr Gwy (South Street, North Street, Wye View Terrace), Llangurig, Ffordd Osgoi Llanidloes, Llandinam, Caersŵs, Pont-dôl-goch, Clatter, Carno, Talerddig, Llanbrynmair, Glantwymyn, Cemais, Cwm Llinau, Mallwyd, Dinas Mawddwy, Dolgellau, Llanelltyd, Ganllwyd, Ffordd Osgoi Trawsfynydd, Ffestiniog, Blaenau Ffestiniog, Dolwyddelan, Llanrwst a Llansanffraid Glan Conwy.

**CEFNFFORDD YR A479**

Y darn o gefnffordd yr A479 sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A40 yng Nglan-wysg, Powys hyd at ei chyffordd â chefnffordd yr A470 yn Llys-wen, Powys gan gynnwys y prif gerbytffyrdd yn Nhretŵr, Pengenffordd a Thalgarth.

**CEFNFFORDD YR A483**

1. Y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A40 Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin hyd at ffin Cymru/Lloegr yn Llanymynech, Powys gan gynnwys y prif gerbytffyrdd yn Abercrychan, Cynghordy, Llanwrtyd, Beulah, Garth, Cilmeri, Llanfair-ym-Muallt (Heol y Garth, Ffordd y Parc, The Strand, Stryd Lydan, Stryd Fawr), Llanelwedd, Hawy, Llandrindod, y Groes, Llanddewi, Llanbister, Llanbadarn Fynydd, Dolfor, Garthmyl, Refail, Ffordd Osgoi'r Trallwng, Arddlin a Llandysilio Four Crosses.

2. Y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A5 yn Halton, Wrecsam hyd at ffin Cymru/Lloegr, 840 o fetrau i'r gogledd o Broadoak, Wrecsam, gan gynnwys Cyffyrdd 1 i 7.

trunk road at Mallwyd, Gwynedd including the main carriageways of Trewern, Buttington and Welshpool (Salop Road, Church Street, Berriew Street, Broad Street, Mount Street, Raven Street, Raven Square, Raven Roundabout), Cyfronydd, Heniarth, Llanfair Caereinion, Llanerfyl, Llangadfan and Foel.

**A470 TRUNK ROAD**

The length of the A470 trunk road that extends from its junction with the main circulatory carriageway of Brynich Roundabout, Powys to its junction with the A55 trunk road at Junction 19, Glan Conwy interchange, Conwy including the main carriageways of Llyswen, Erwood, Builth Wells (Hay Road), Newbridge on Wye, Rhayader (South Street, North Street, Wye View Terrace), Llangurig, Llanidloes bypass, Llandinam, Caersws, Pontdolgoch, Clatter, Carno, Talerddig, Llanbrynmair, Glantwymyn, Cemmaes, Cwm Llinau, Mallwyd, Dinas Mawddwy, Dolgellau, Llanelltyd, Ganllwyd, Trawsfynydd bypass, Ffestiniog, Blaenau Ffestiniog, Dolwyddelan, Llanrwst and Llansantffraid Glan Conwy.

**A479 TRUNK ROAD**

The length of the A479 trunk road that extends from its junction with the A40 trunk road at Glanusk, Powys to its junction with the A470 trunk road at Llyswen, Powys including the main carriageways of Tretower, Pengenffordd and Talgarth.

**A483 TRUNK ROAD**

1. The length of the A483 trunk road that extends from its junction with the A40 Llandovery, Carmarthenshire to the Wales/England border at Llanymynech, Powys including the main carriageways of Abercrychan, Cynghordy, Llanwrtyd Wells, Beulah, Garth, Cilmery, Builth Wells (Garth Road, Park Road, The Strand, Broad Street, High Street), Llanelwedd, Howey, Llandrindod Wells, Crossgates, Llanddewi, Llanbister, Llanbadarn Fynydd, Dolfor, Garthmyl, Refail, Welshpool bypass, Arddleen and Llandysilio Four Crosses.

2. The length of the A483 trunk road that extends from its junction with the A5 trunk road at Halton, Wrexham to the Wales/England border, 840 metres north of Broadoak, Wrexham, including Junctions 1 to 7.

## CEFNFFORDD YR A487

1. Y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol cylchfan Pont y Cleifion, Aberteifi hyd at ei chyffordd â chefnffordd yr A470 wrth Dafarn Cross Foxes, Dolgellau, Gwynedd gan gynnwys y prif gerbytffyrdd ym Mhenparc, Tremain, Blaenannerch, Blaenporth, Tan-y-groes, Sarnau, Brynhoffnant, Pentre-gât, Synod Inn, Llan-arth, Llwyncelyn, Ffos-y-ffin, Aberaeron, Aber-arth, Llan-non, Llanrhystud, Blaenplwyf, Rhydgaled, Llanfarian, Rhyd-y-felin, Aberystwyth (Coedlan Antaron, Ffordd Penparcau, Heol y Bont, y Stryd Fawr, Sgwâr Owain Glyndŵr, Rhodfa'r Gogledd, Stryd Thespis, Ffordd Alexandra, Dan Dre Penglais), Bow Street, Tal-y-bont, Tre Taliesin, Tre'r Ddôl, Ffwrnais, Eglwys-fach, Glandyfi, Derwenlas, Machynlleth (Heol Aberystwyth, Heol Pentrehedyn, Heol y Doll), Pantperthog, Corris a Corris Uchaf.

2. Y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A470, 480 o fetrau i'r dwyrain o Gellilydan, Gwynedd hyd at ei chyffordd â chefnffordd yr A5 wrth Bont y Borth, ym Mangor, Gwynedd gan gynnwys y prif gerbytffyrdd ym Mhenrhyndeudraeth, Ffordd Osgoi Porthmadog, Penmorfa, Bryncir, Llanwnda, Bontnewydd, Caernarfon, Ffordd Osgoi'r Felinheli a Ffordd Treborth.

## CEFNFFORDD YR A489

1. Y darn o gefnffordd yr A489 sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A483 yn y Drenewydd, Powys hyd at ei chyffordd â chefnffordd yr A470 wrth Lôn y Clawdd, Powys.

2. Y darn o gefnffordd yr A489 sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A470 yng Nglantwymyn, Powys hyd at ei chyffordd â chefnffordd yr A487 ym Machynlleth, Powys gan gynnwys y prif gerbytffyrdd yn Abergwidol a Phenegoes.

## CEFNFFORDD YR A494

Y darn o gefnffordd yr A494 sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A470 wrth ffordd osgoi Dolgellau hyd at ffin Cymru/Lloegr, 300 metr i'r gogledd o Gyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint, gan gynnwys y prif gerbytffyrdd yn y Bala, Gwyddelwern, Brynsaithmarchog, Pwll-glas, Rhuthun (Lôn Fawr, Stryd Mwrog, Ffordd y Parc, Wernfechan, Stryd y Rhos, Ffordd yr Wyddgrug), Llanferres, Gwernymynydd, Ffordd Osgoi'r Wyddgrug, Alltami, Aston Hill a Phont Afon Dyfrdwy.

## A487 TRUNK ROAD

1. The length of the A487 trunk road that extends from its junction with the main circulatory carriageway of Pont y Cleifion roundatbout, Cardigan to its junction with the A470 trunk road at Cross Foxes Inn, Dolgellau, Gwynedd including the main carriageways of Penparc, Tremain, Blaenannerch, Blaenporth, Tanygroes, Sarnau, Brynhoffnant, Pentregat, Synod Inn, Llanarth, Llwyncelyn, Ffôs y Ffin, Aberaeron, Aberarth, Llanon, Llanrhystyd, Blaenplwyf, Chancery, Llanfarian, Rhydyfelin, Aberystwyth (Antaron Avenue, Penparcau Road, Bridge Street, Great Darkgate Street, Owain Glyndŵr Square, North Parade, Thespian Street, Alexandra Road, Mill Street, Penglais), Bow Street, Talybont, Tre Taliesin, Tre'r Ddôl, Furnace, Eglwysfach, Glandyfi, Derwenlas, Machynlleth (Aberystwyth Road, Heol Pentrehedyn, Heol y Ddoll), Pantperthog, Corris and Corris Uchaf.

2. The length of the A487 trunk road that extends from its junction with the A470 trunk road, 480 metres east of Gellilydan, Gwynedd to its junction with the A5 trunk road at the Menai Suspension Bridge, at Bangor, Gwynedd including the main carriageways of Penrhyndeudraeth, Porthmadog bypass, Penmorfa, Bryncir, Llanwnda, Bontnewydd, Caernarfon, Felinheli bypass and Treborth Road.

## A489 TRUNK ROAD

1. The length of the A489 trunk road that extends from its junction with the A483 trunk road at Newtown, Powys to its junction with the A470 trunk road at Moat Lane, Powys.

2. The length of the A489 trunk road that extends from its junction with the A470 trunk road at Glantwymyn, Powys to its junction with the A487 trunk road in Machynlleth, Powys including the main carriageways of Abergwydol and Penegoes.

## A494 TRUNK ROAD

The length of the A494 trunk road that extends from its junction with the A470 trunk road at Dolgellau bypass to the Wales/England border, 300 metres north of Deeside Park Interchange, Flintshire including the main carriageways of Bala, Gwyddelwern, Bryn Saith Marchog, Pwll Glas, Ruthin (Lon Fawr, Mwrog Street, Park Road, Wernfechan, Rhos Street, Mold Road), Llanferres, Gwernymynydd, Mold bypass, Alltami, Aston Hill and River Dee Bridge.